

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 21 Ebrill 2015

STATWS: Cydymffurfio

CATEGORI: Polisi

Teitl:
Llwybr Golwg Plant Cymru (4-5 oed)

Dyddiad dod i ben / Adolygu
Amherthnasol

I'w weithredu gan:
Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG

Angen gweithredu erbyn:
Ar unwaith

Anfonir gan:
Llywodraeth Cymru

Enwau Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :
Sarah O'Sullivan-Adams
Pennaeth Awdioleg a Pholisi Offthalmig
Y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd
Sarah.o'sullivan-adams@wales.gsi.gov.uk

Dogfen(nau) amgaaedig: Dim

Llwybr Golwg Plant Cymru (4- 5 oed)

Datblygwyd y llwybr hwn gan Grŵp Cynghori Golwg Plant Cymru sy'n cynnwys orthoptwyr ac optometryddion o bob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Y nod yw darparu llwybr archwiliadwy hyblyg ar gyfer sgrinio mewn ysgolion gan atgyfeirio ymlaen i ofal sylfaenol neu ofal eilaidd, fel y gellir parhau i ddefnyddio systemau presennol sydd eisoes yn gweithio'n effeithiol. Mae pecyn hyfforddi cenedlaethol hefyd wedi'i ddatblygu ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Mae'r llwybr hefyd yn adlewyrchu gweledigaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer iechyd darbodus wrth weithio tuag at:

- Sicrhau iechyd a lles, gydag aelodau'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol fel partneriaid cyfartal drwy gyd-gynhyrchu;
- Gofalu am y rheini sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau;
- Gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig, dim mwy, dim llai; a gwneud dim niwed.
- Lleihau amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw.

Cafodd y llwybr ei gymeradwyo gan Grŵp Llywio Iechyd Llygaid Cymru ym mis Chwefror 2015.



